

Newyddion Capel Y Waen

Rhif 23 Hydref 2015

**Capel Annibynwyr Waengoleugoed
Waen,
Llanelwy LL17 0DY**

Eglwys fechan bywiog a gweithgar sydd yn gwrando ar lais Duw ac yn ceisio bod yn ganolbwynt daoini a gweithredu yn gariadus o fewn ein cymuned. I weld rhagor o newyddion / trefn oedfa ayb ewch i'n Gwefan - www.capelywaen.btck.co.uk / dilynwch ni ar Facebook "Capel y Waen".

Cysylltwch a ni trwy'r wefan neu trwy'r post i'r cyfeiriad uchod

Ein Llyfr I Ddathlu ein 200 mlwyddiant

Roedd na lawenydd mawr pan ddaeth y bocsus o llyfrau l'n dwylo . Diolch I bawb am eu cyfraniadau ac anogaeth a diolch yn arbennig i'r Parch Dr D Ben Rees am ein rhoi ar y ffordd a'u garedigrwydd mawr a hefyd Aeryn Jones Llanuwchllyn am ei gymorth parod. Mae y llyfr ar werth trwy law y Capel am £10 neu £12 trwy'r post er budd gwaith Gofal Dydd a Grwp cancr C3 , felly cofiwch am y llyfr fel anrheg Nadolig arbennig a hefyd bydd eich anrheg yn gwenud gwahaniaeth mawr ac yn helpu y rhai sydd yn dod I Ofal Dydd a Grwp C3. Braff oedd clywed fod nifer o gopiau wedi cael eu gwerthu yn barod!



STORI CAPEL WAENGOLEUGOED

Sul, Gŵyl a Gwaith

Dathlu Dauganmlwyddiant (1815-2015) yr Achos



Golygydd: Mari Lloyd-Williams

Cyhoeddiadau Modern

Ychydig o'n Hanes

GWAITH ELUSEN
CAPEL Y WAEN
YNGHYD A CHAS-
GLIADAU ARBENNIG

RYDYM YN CYNNAL FFAIR
FLYNYDDOL. YN 2014 DERBYN-
WYD £3,925.25 A RYDYM WEDI
HELPU HOSBIS ST CYNDEYRN,
CYMORTH CRSITNOGOL A GOFAL
DYDD. RYDYM YN RHOI CYMORTH
YMARFEROL TRWY BRYNNU OFFER
I RHAI SYDD YN Wael. COFIWCH
CEFNOGI EIN SIOP NEWYDD SYDD
YN GWERTHU NWYDDAU,
CHARDIAU AC ANRHEGION A CHEF-
NOGWCH Y GRONFA YMA
OUR OUTREACH WORK
IN 2014 WE RECEIVED £3,925.25
FROM THE FAIR AND SPECIAL COL-
LECTIONS. YOU CAN HELP SUP-
PORT OUR VITAL WORK AND ESPE-
CIALLY FUNDING OUR WEEKLY DAY
CARE BY DONATIONS, SUPPORTING
OUR SHOP AND DONATING GIFTS
AND OTHER ITEMS TO SELL.

*Myfrdod y Mis
“Mawr yw
serch ei gariad
atom, mawr ei
ryfedd ras di-
lyth, ei gyfa-
mod a'i
wirionedd,
sydd heb ball
yn para byth;
Haleliwia
Molwch,
Molwch Enw'r
lon”*

Oedfaon Ddiolchgawrch

Croesawyd Arfon Wyn I gynnal yr oedfa deulu a gyda nifer o ganeuon ar y gitar yn cynnwys emyn Arfon ei hyn “Pwy Wnaeth y Ser Uwchben” ac mewn oedfa hynod o effeithiol llwyddodd I wneud I bob un ohonom feddwl pa mor bwysig ydi bob amser I ddweud diolch wrth eraill ac i Dduw. Ar y nos Fawrth ein pregethwr gwadd oedd y Parchedig Meurig Dodd—yn anffodus nid oedd yn dda a gwnaeth ymdrech enfawr I fod gyda ni .Chawsom bregeth gwych a hynny heb unrhyw bapur na no-diadau.Diolch Arfon a Parch Meurig Dodd, i David ein horganydd, merched gofal dydd a Nancy am y blodau hardd, a Gareth a Richard am drefnu y parcio. Derbynwyd £306 fel offrwn at Gofal Dydd a'r Hosbis.

Ein Cywaith

Gobeithio fod pawb bellach yn gwybod ein bod yn dathlu 200 mlynedd ers sefyldu yr Achos Annibynwyr yn y Waen ! Ein deisyfiad ydi cael cywaith a fydd yn gael eu osod ar y ffenest sydd wedi eu lenwi ar bwys yr estyniad. Mae Cefyn Burgess wedi bod yn gweithio gyda grwpiau C3, Gofal Dydd, y Capel a'r gymuned ac mae na ddau weithdy arall ar Tachwedd 8fed am 11.30 a Tachwedd 22 am 3.30 ac efallai bydd eraill. Mae y gweithdai yn agored i bawb ac mae yn iawn i fynd a dod. Ymunwch gyda ni er mwyn cael cywaith sydd yn adlewyrchu holl fywyd a gwaith y Capel a'r gymuned. Byddem yn cael oedfa fach i gyflwyno y cywaith maes o law

Oedfaon Ddiweddar

Diolch I Iola Jones am yr oedfa am ei pherthynas Catherine Roberts a deithiodd ar y Mimosa ond a bu farw ychydig wythnosau ar ol cyrraedd Porth Madryn—oedfa gwych ar noson hyfryd . Croesawyd Miss Beti Griffiths Llanilar atom a chael oedfa mor fendithiol ganddi fel arfer. Roedd Bill Evans yn yr oedfa haf ac I wrando ar Beti—ei gyfnither. Trist iawn clywed ei fod wedi marw prin 4 wythnos wedyn - cydymdeimlwn gyda Anne a gweddill y teulu a hefyd gyda Beti Griffiths yn eu colled trist.

Diolch am Roddion

Yn ddiweddar chawsom rodd o £500 ar gyfer Gofal Dydd pan daeth gwaith Urdd Cyfeillion Ysbyty Chatsworth House I ben. Roedd yn achlysur emosiynol iawn a chlywed frwydr dewr Urdd y Cyfeillion I gadw yr Ysbyty bach pwysig yma yn agored ond y bwrdd iechyd yn eu trechu, a nawr mae pobl oedrannus o Brestatyn yn cael eu hanfon mor bell a Rhuthun os angen gwely mewn Ysbyty Cymunedol. Rydym yn diolch yn fawr I Urdd y cyfeillion am eu rhodd caredig iawn ini

Dymuniadau Da Rydym yn dymuno gwellhad buan I Becki Roberts sydd wedi treulio rhai dyddiau yn yr Ysbyty ac I Di sydd wedi cael triniaeth ac yn gobeithio bydd y ddwy yn teimlo yn well yn fuan.

Cofiwn ar ein Rhestr Weddi am Mrs Menna Owen yng Nghartref yr Hen Ddeondy, Mr John Gwilliam yng Nghartref High Pastures Deganwy ac Elin Price (mam Rhian) sydd heb fod yn dda adref. Rydym wedi cofio ac yn cofio am bob un o'r bobl yma yn ein gweddiau personol a fel chynyllleidfia o Sul I Sul yng Nghapel Waengoleugoed.

Gofal Dydd — Chawsom trip haf I ganolfan Abakhan ym Mostyn a mwynhawyd cinio ardderchog ar ddiwrnod hyfryd o haf cyn cael cyfle I fynd am dro bach o amgylch y ganolfan. Ym mis Awst, gan nad oeddem yn cyfarfod yn wythnosol, chawsom te prynhawn yn y Capel a braf croesawu Bev Mather rheolwraig Dialaride sydd mor garedig wrthym, ei gwr a'i mab bach Charlie I cael te gyda ni, ynghyd a rhai o'r Capel. Rydym wedi mwynhau amryw weithgareddau yn ddiweddar . Rydym yn croesawu Glenys Goddard atom I ymuno gyda'r tim gwirfoddoli. Diolch I Emrys Owens am roi sgwrs hynod ddifyr am hen greiriau , cwis gan Peter sydd bob amser yn gwneud ini feddwl yn galed a hefyd I merched Gofal Dydd a fu yn trefnu y blodau hardd ini ar gyfer Diolchgarwch gyda help Nancy a hefyd I Mr Bryn Roberts am roi y blodau ini. Rydym wedi cael sesiynau gyda Rhian Price, Cefyn Burgess, Tecwyn Ifan , Donna, ac Arfon Wyn a wedi mwynhau pob un. Cydymdeimlwn gyda Mrs Ceinwen Jones a Mrs Margaret Jones - y ddwy wedi colli chwiorydd yng nghyfraith. Chofiwn am Mrs Alice Morris a Mrs Ceinwen Jones sydd yn yr ysbyty ac am Mrs Dorothy Jones a Mrs Eluned Lloyd sydd heb fod yn dda—edrychwn ymlaen at eu gweld yn dychwelyd yn ol atom.yn fuan.

Rhodd i Gofio Glenys Jones - Rydym yn ddiolchgar iawn i deulu y diweddar Glenys Jones, Tan Llan , Llanefydd am eu rhodd caredig ini fel rhan o'r arian a dderbynwyd er cof am Glenys a hefyd am y geiriau caredig iawn a ddaeth gyda'r rhodd. Byddem yn defnyddio y rhodd i brynnu eitemau ar gyfer Gofal Dydd er cof am Glenys ac i gofio ei chyfraniad mawr yn gwirfoddoli gyda Gofal Dydd.

Cyngerdd Live Music Now . Roeddem mor ffodus o gael cyngerdd dan nawdd Live Music Now yn ystod wythnos yr Wyl gerdd yn Llanelwy. Daeth 3 aelod talentog o grwp Calan-ish atom I'n diddori a chawsom wledd o ganeuon ganddynt. Braf iawn oedd croesawu rhai o'r Capel a'r gymuned I ymuno a ni ac oedran y gynyllleidfia yn ymestyn o fabi misoedd oed I drost y 100 oed a phob un wedi mwynhau y cyngerdd! Diolchwyd iddynt a chafwyd te bach I bawb wedi'r cyngerdd

Grwp C3- Cydymdeimlwn gyda Mair sydd wedi colli ei thad Owen Roberts wedi gwaeledd hir ac anodd. Cydymdeimlwn hefyd gyda Sioned a'r teulu wedi iddynt golli tad Hywel drost yr haf. Daeth Cefyn Burgess atom i son am y cywaith a mwynhaodd pawb y chyfle i gyfrannu ato a da hefyd croesawu dau newydd atom. Daeth Llinos Roberts atom ym mis Tachwedd i ddangos sut i wneud torchau hyfryd ar gyfer y Nadolig ac ym mis Rhagfyr fydd Elinor Davies gyda ni. Mae croeso i unrwy un sydd wedi yn derbyn triniaeth am gancr i ymuno gyda ni o 4.30—6.30 ar y Nos Fercher cyntaf pob mis

Ffair Nadolig—Mae y ffair eleni ar Tachwedd 28 o 10 –12.30 a fel arfer bydd amryw o stondinau yn cynnwys bwyd Nadolig, chrefftau, anrhegion newydd, cardiau ac addurniadau Nadolig, tlysau ayb,Byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn rhoddion o nwyddau / bwyd Nadolig ayb i'w gwerthu ac i'w derbyn cyn y diwrnod os yn bosib er mwyn hwyluso y paratoi a'r gwaith ar y diwrnod ei hyn. Gall unrwy beth gael eu adael ym mhorth y Capel gan fod rhai yn ymweld a'r Capel yn ddyddiol a bydd y Capel yn agored twy'r dydd iau cyn y ffair

Hamperi Nadolig— Yn flynyddol rydym yn paratoi 50—60 o hamperi Nadolig a'u rhannu i rai sydd wedi bod yn wael, wedi cael profedigaeth neu unrwy angen. Ynghyd a'r Waen, Llanelwy a'r pentrefi lleol ,rydym yn dosbarthu i ardal eang. Rydym yn ddiolchgar o gael enwau rhai fyddai yn hoffi cael parcel. Byddai cael rhagor sydd yn barod i ddosbarthu hyd yn oed un neu ddau o barseli, yn gymorth mawr ac yn golygu na fyddem yn dosbarthu y parceli mor hwyr a Noswyl Nadolig fel sydd wed digwydd y blwyddyn neu ddau diweithaf. Mae yn orchwyl pleserus ac yn un sydd yn gwneud ini feddwl pa mor ffodus yr ydym wrth weld angen ac unigrwydd mawr sydd yn ein cymunedau Gan fod cyflenwad o fwydydd paced a tin wedi eu roi ini yn barod, os fyddai unrwy un yn hoffi cyfrannu i'r parceli , byddem yn falch iawn o dderbyn pcedi bach o bisgedi, fferins a siocled i'w roi yn y parceli ac i dderbyn unrwy roddion cyn y 10fed o Ragfyr os gwelwch yn dda.

Ysgol Dewi Sant—Mae pawb yn gwybod fod plant wrth eu bodd yn siarad gyda phobl o bob oedran a fod pobl mewn oed yn falch o sgwrsio gyda phlant. Rydym wedi cychwyn partneriaeth gyda Ysgol Dewi Sant Y Rhyl sydd yn golygu fydd plant o bob oedran yn ymweld yn rheolaidd a ni i siarad gyda phawb sydd yng Ngofal Dydd ac i dod i adnabod ein gilydd, ond hefyd i ymchwilio ar gyfer prosiectau ayb .

Daeth y grwp cyntaf o blant o'r Ysgol gyda'r prifathro i ymweld a ni ac roeddent oll yn ddisgyblion annwyl a ddeallus a rhai fyddai unrwy ysgol yn ymfalchuo ynddynt. Y dyfarniad gan bawb oedd ein bod i gyd wedi cael amser gwych gyda'n gilydd ac yn edrych ymlaen yn eiddgar at y tro nesaf.Diolch i bawb a helpodd gyda hyn ac i Anti Aledwen a wnaeth gacennau bach lyfli i bawb eu fwynhau.

Cydymdeimlo—Cydyndeimlwn gyda Di ac Emyr George ym marwolaeth sydyn Peter Edwards, cefnder Di. Bu farw John Evans, ewythr Derrick wedi iddo gael ei daro l lawr mewn damwain erchyll a chydymdeimlwn yn gywir gyda'r teulu l gyd yn eu profedigaeth.

Cofio Mr Meirion Jones Rhewl. Bu farw Meirion yn dawel yng nghartref Plas Eleri yn 72 mlwydd oed. Magwyd Meirion a'l efaill Gwyn yn Llanrhaedr ond yn 21 oed ddaeth y ddau l fyw ac l amaethu y Rhewl ac yma bu Meirion fyw gweddi ei fywyd. Bu Meirion yn weithgar yn y gymuned ac yn enwedig yng Nghapel Rhualt ble roedd yn flaenor am 40 mlynedd cyn l'r achos ddod l ben. Roedd yn gweithio yn galed ar y fferm ac yn amaethwr blaenllaw ac yn gymydog da. Chafodd nifer o brofedigaethau yn ystod ei fywyd—bu farw ei fam ar enedigaeth Meirion a'l efaill, colli Rhys yn ifanc a wedyn colli Eirlys ond llwyddodd Meirion l ddod drwy pob profedigaeth a hynny heb chwerwi ac yn sicr bu ei ffydd tawel a chadarn yn gysur mawr iddo. Trwy gydol salwch hir, chafodd gofal enfawr a chariadus gan Meinir, Arwyn, Rhodri, Julie, Gwyn, Gwenan a Meurig ac roedd y gofal arbennig yma yn golygu god Meirion yn gallu bod yn hollol ganolog l fywyd ei deulu tan y diwedd un. Chofiwn l Meirion gerdded Meinir l mewn l Gapel y Waen ar achlysur ei phriodas tridau wedi'r Nadolig yn 2012 a hefyd fel yr oedd yn daid balch a llawen pan gafodd Gronw bach ei fedyddio mis Hydref 2014. Diolchwn l Dduw am fywyd Meirion, am ei ddewrder, am ei ffydd ac am ei wasanaeth l'w gapel a'l gymdogaeth. Roedd yr angladd yng Nghapel Trefnant dan ofal y Parch Brian Huw Jones. Cydyndeimlwn gyda'r teulu l gyd yn ei hiraeth am frawd, tad a thaid annwyl.

Cofio Mr Elwy Hughes Rhyl Trist oeddem o glywed am farwolaeth anisgwyl Elwy Hughes. Fe'l ganed yn Nhrelogan a gweithiodd yn lleol cyn priodi a Menna Evans Ty Capel. Am dros 25 bu Elwy a Menna yn edrych ar ol Capel Clwyd Street ac yn byw yn Nhy'r Capel a hyn ar yr adeg ble roedd yn Gapel prysur a llawer o waith cynnal a chadw y capel ar gyfer yr holl weithgareddau. Bu Menna yn wael am sawl blwyddyn a mawr oedd gofal Elwy ohonni a sicrhau er ei salwch, fod Menna yn gallu mwynhau bywyd. Yn y blynyddoedd diweithaf roedd Elwy yn dod atom l'r Waen ar gyfer Ddiolchgarwch, Canwyll l Gofio ac l'r oedfa ar Noswyl Nadolig a bob amser yn gwerthfawrogi a mwynhau a hefyd yn cyfarfod a sawl un yr oedd yn ei adnabod. Roedd ei angladd yng Nghapel Clwyd Street dan ofal Parch Brian Huw Jones a cynrychiolwyd Capel y Waen yn y gwasanaeth. Cydyndeimlwn gyda'r teulu l gyd a gyda Alwena ei chwaer yng nghyfraith.

Dyma rhestr dyddiadau i'w nodi ac oedfaon gyda pregethwyr gwadd

2015

Tachwedd 8fed Karen Owen Penygroes **10.30yb**

Tachwedd 9fed Noson Lansio Llyfr Capel Waengoleugoed, Sul, Gwyl a Gwaith gyda Parch Dr D Ben Rees, Angharad Tomos, Parch Tecwyn Ifan a lluniaeth i ddilyn **7.30yh**

Tachwedd 22 Parch Harri Parri Caernarfon **2yp**

Tachwedd 28 Ffair Nadolig er budd Hosbis St Cyndeyrn a Gofal Dydd—Dewch i brynnu danteithion y Nadolig ar gyfer yr rhewgell, Cardiau Nadolig ac addurniadau, Chrefftau, Anrhegion newydd gwahanol, stondin tlysau a stondinau eraill **10.00 yb—12.30 mynediad am ddim—parcio yn y Farmers Arms**

Rhagfyr 6ed Oedfa Garolau Canwyll i Gofio—oedfa garolau dan olau canwyll a chyfle i gofio annwyliaid **6 yh**

Rhagfyr 20 Oedfa byr a parti i'r plant **3.30 – 5yp**

Rhagfyr 24 Carolau ar Gyfer pobl Prysur—oedfa deuluol 30 minud o hoff garolau a darlleniadau **4yp**

2016

Ionawr 6ed – Oedfa Ystwyll dan olau canwyll **7yh**

Ionawr 31 Parch Williams Davies Bala **2 yp**

Chwefror 6 Parch John Roberts BBC **10.30 yb**

Pob Dydd Iau—Gofal Dydd 10.30yb—3.30yp

or faith —please do let us know if you feel that the Chapel can help you in any way. We have a monthly English news letter on **our website** www.capelywaen.btck.co.uk .

Dyddiadau i'w Nodi – Dyma rhestr dyddiadau iw nodi ac oedfaon gyda pregethwyr gwadd 2015

Mehefin 21 Parch Tecwyn Ifan Llanddoged **2yp**

Mehefin 28 Oedfa Deulu'r Haf **10.30 yb**

Gorffennaf 19 Parch Iwan Llewelyn Jones Porthmadog **5yp**

Awst – Dim oedfa / Dim Gofal Dydd

Medi 6ed Miss Beti Griffiths Llanilar 2yp

Medi 27 Parch Elfed ap Nefydd Roberts Abergele 2yp

Hydref 11 Oedfa Deulu Diolchgarwch gyda Arfon Wyn 10.30yb

Hydref 13 Oedfa Ddiolchgarwch 7yh

Tachwedd 8fed Karen Owen Penygroes 10.30yb

Tachwedd 22 Parch Harri Parri Caernarfon 2yp